**Adroddiad i'r:** Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol

**Dyddiad y Cyfarfod:** 11 Gorffennaf 2012

**Swyddog Arweiniol:** Alan Smith, Pennaeth Cynllunio Busnes a Pherfformiad

**Awdur yr Adroddiad:** Tony Ward, Swyddog Tîm Gwella Corfforaethol

**Teitl: Rhaglen Reoleiddio Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer Archwilio Perfformiad 2012-13**

---

## 1. Beth yw byrdwn yr adroddiad?

Mae'r adroddiad yn cyflwyno'r Rhaglen Reoleiddio Archwilio Perfformiad 2012-13 ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru (SAC).

## 2. Pam cyflwyno'r adroddiad hwn?

Rhoi gwybodaeth ar y gwaith archwilio perfformiad a ymgymerir yng Nghyngor Sir Ddinbych gan SAC yn ystod 2012-13.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod yr Aelodau'n ystyried y rhaglen reoleiddio, ynghlwm yn Atodiad 1, a chodi unrhyw faterion neu ymholiadau gyda SAC a fydd yn bresennol i gyflwyno rhaglen.

## 4. Manylion yr adroddiad

Mae'r rhaglen reoleiddio hon yn amlinellu gwaith i'w wneud gan ac ar ran yr Archwiliwr Cyffredinol dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), Deddf Llywodraeth Leol 1999 a Rhannau 2 a 3A o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae'n crynhoi: gweithgareddau a gynlluniwyd ar gyfer 2012-13; rolau a chyfrifoldebau staff perthnasol SAC, a ffioedd ar gyfer gwaith archwilio perfformiad yr Archwiliwr Cyffredinol.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu tuag at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae llawer o'r gwaith archwilio perfformiad yn ymwneud yn uniongyrchol â Blaenoriaethau Corfforaethol a Chynllun Corfforaethol y cyngor, o ran adlewyrchu ar ein llwyddiant yn cyflawni Cynllun Corfforaethol 2009-12, ein hagwedd tuag at ddatblygu Cynllun Corfforaethol 2012-17. Er enghraifft, mae'r rhaglen yn cynnwys archwiliad blynyddol cynllun gwella'r cyngor (h.y. y Cynllun Corfforaethol) a hunanasesu perfformiad (h.y. adolygiad blynyddol perfformiad mewn perthynas â'n Cynllun Corfforaethol).

## 6. Beth fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio gwasanaethau eraill?

Ffi arfaethedig SAC ar gyfer gwaith archwilio perfformiad yn 2012-13 yw £120,880 (+ TAW) fel y manylir yn Atodiad 4 i'r Rhaglen Reoleiddio.

**7. Pa ymgynghori a fu?**

Trafodwyd y rhaglen reoleiddio ddrafft gyda'r swyddogion perthnasol, gan gynnwys y Pennaeth Cynllunio Busnes a Pherfformiad a Rheolwr Tîm Gwella Corfforaethol, cyn cael ei chymeradwyo gan y Prif Weithredwr.

**8. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y medrwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae'r allbynnau o'r gwaith archwilio perfformiad yn cynnwys adroddiadau gan gyrff rheoleiddio (megis SAC), ac mae "perygl adroddiad(au) negyddol arwyddocaol gan reoleiddwyr allanol" yn cael ei nodi fel risg ar ein Cofrestr Risg Gorfforaethol. Ein Fframwaith Rheoli Perfformiad Corfforaethol yw'r prif arf rheoli sy'n bodoli i reoli'r risg, ac mae'r camau canlynol wedi eu nodi fel rhai sydd angen eu cymryd i leihau ymhellach risg weddillol:

- Datblygu fframwaith mwy ffurfiol i gydgysylltu hunanasesiadau i gefnogi gweithgareddau rheoleiddio.
- Gweithredu agwedd newydd tuag at bennu targedau (fel y cytunwyd gan yr Uwch Dîm Arwain) ar gyfer Cynlluniau Gwasanaeth 2012-13.
- Cyflwyno hyfforddiant rheoli perfformiad ar gyfer Aelodau newydd (gan gynnwys pennu targedau).

**9. Pŵer i gymryd y Penderfyniad**

Papur er gwybodaeth yw hwn, yn hytrach na phenderfyniad.